William Williams, Pantycelyn: 1717-1791

Y Pêr Ganiedydd

Dyfalbarhad / ffyddlondeb

Fyddwch chi weithiau'n cyfeirio at eich ffrindiau wrth enw eu cartrefi? Dylan Plas Du neu Megan Fron. Mae'r stori hon yn sôn am ddyn na fyddwn hyd yn oed yn ei alw wrth ei enw, dim ond cyfeirio at enw ei gartref yn unig, sef Pantycelyn.

Roedd William, pan oedd yn fachgen ifanc, eisiau bod yn feddyg. Teimlai y gallai fod o gymorth i bobl yr ardal. Roedd llawer ohonyn nhw'n marw'n ifanc. Roedd llawer o blant bach yn marw hefyd.

Un diwrnod, pan oedd William ar ei ffordd adref, arhosodd i wrando ar Howell Harris yn pregethu y tu allan i eglwys Talgarth. Yn ystod y bregeth, teimlai fod Duw yn galw arno i wneud gwaith arbennig. Ar ei ffordd adref, ar ôl gwrando ar y bregeth, daliai i feddwl am yr hyn a glywodd. Penderfynodd ei fod am fynd yn offeiriad. Cafodd ei benodi'n gurad yn yr eglwys. Doedd o ddim yn hapus fel curad yn yr eglwys.

Yn fuan iawn, dechreuodd bregethu gydag enwad arall sef y Methodistiaid. Golygai hyn y byddai Williams yn pregethu ar hyd ac ar led y wlad. Roedd y bobl oedd wedi cael tröedigaeth yn cyfarfod gyda'i gilydd mewn "seiadau". Yn y "seiadau" hyn bydden nhw'n trafod beth oedd ystyr eu tröedigaeth. Ar un cyfnod roedd oddeutu 450 o seiadau ar hyd a lled Cymru. Byddai William wrth ei fodd yn cwrdd â'r holl bobl ifanc, yn fechgyn a merched. Roedden nhw'n barod iawn i sôn am yr hyn oedd wedi digwydd iddyn nhw. Byddai William yn barod iawn i roi cyngor i'r bobl ifanc hyn.

Roedd William hefyd yn bregethwr mawr. Teithiai trwy Gymru i gyd i bregethu a byddai tyrfaoedd yn dod i wrando arno. Yn ôl yr hyn a ddywedodd ef ei hun, "Yr wyf wedi teithio'n agos i dair mil o filltiroedd bob blwyddyn tros 50 o flynyddoedd."

Ond efallai ein bod yn cofio am Bantycelyn yn bennaf fel emynydd. Mae sôn bod Howell Harris wedi trefnu math o gystadleuaeth i weld a oedd Duw wedi donio un o'r arweinwyr Methodistaidd yn fwy na'i gilydd i gyfansoddi emynau. Yn ôl pob golwg, Pantycelyn enillodd. Felly, roedd cyfrifoldeb arno ef i

gyfansoddi emynau. Dechreuodd ar y gwaith yn ifanc iawn pan oedd yn 27 oed. Roedd nid yn unig yn cyfansoddi emynau, ond hefyd yn creu penillion i'w canu ar alawon ysgafn.

Roedd ei wraig Mali yn gantores ac yn deall cerddoriaeth. Mae'n bur debyg ei fod wedi cael cymorth ganddi hi gyda'r alawon. Mae sôn fod cynulleidfa fawr ym Mhen Llŷn, yng Ngogledd Cymru, wedi bod yn canu emynau Pantycelyn am dri diwrnod a thair noson. Meddyliwch am y fath ganu! Yn y llyfr emynau *Caneuon Ffydd* mae yna 88 o emynau Pantycelyn.

Gan fod William Williams wedi cyfansoddi cymaint o emynau, mae'r Cymry wedi rhoi enw arall arno sef "Y Pêr Ganiedydd". O edrych ar emynau Pantycelyn, maen nhw'n cynnwys llawer o eiriau a dywediadau o'r Beibl. Mae'n amlwg ei fod yn gwybod y Beibl yn dda. Chwiliwch am yr emyn hwn yn *Caneuon Ffydd*:

"Iesu, Iesu rwyt ti'n ddigon
Rwyt ti'n llawer mwy na'r byd..."

"Rhoddodd yn fy ngwefusau gân newydd, cân o foliant i'n Duw."

Salm 40:3

O Dduw,
pererin wyf mewn anial dir,
Yn crwydro yma a thraw,
ac yn rhyw ddisgwyl bob yr awr.
Fod tŷ fy Nhad gerllaw."
Amen.

Mae emynau yn mynegi profiadau, profiadau pobl eraill.
Ydi hi'n iawn i ni ganu am brofiadau pobl eraill, sy'n ddieithr i ni?

William Williams, Pantycelyn: 1717-1791